Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 5:
Beth mae pobl ei eisiau?

Amcan dysgu
Cynnal ymchwil syml i'r farchnad.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd
- Cyfathrebu

Trefniadaeth
- Ymchwil – deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu
Gofynnwch y cwestiwn: *"Sut allwn ni ddarganfod os bydd rhywun eisiau prynu ein cynnyrch neu'n gwasanaeth?"*

Cyflwynwch y syniad o ymchwil i'r farchnad e.e. cynllunio bwydlen newydd ar gyfer ffreutur yr ysgol.

Trafodwch fanteision defnyddio holiadur i ymchwilio i'r syniad am fenter.

Mewn grwpiau mae'r disgyblion yn dyfeisio eu holiaduron syml eu hun. Gallai cwestiynau posibl gynnwys:

- *"Beth ydyn nhw'n meddwl am ein syniad?"*
- *"Ydyn nhw'n hoffi ein cynnyrch neu wasanaeth?"*
- *"Bydd pobl eisiau ei brynu?"*
- *"Faint fyddan nhw'n ei dalu amdano fe?"*

Mae'r disgyblion yn penderfynu pwy i'w harolygu e.e. eu teulu, disgyblion mewn dosbarthiadau eraill, rhieni.

Mae'r disgyblion defnyddio eu holiadur i gasglu gwybodaeth.

Mae'r disgyblion yn coladu eu data ac yn adeiladu graff syml/siart gyfrif sy'n cynrychioli eu canfyddiadau.

Gweithgaredd 5:
Beth mae pobl ei eisiau?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu
Bydd disgyblion y datblygu sgiliau ymchwil syml.

Adnoddau mae eu hangen
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Meddwl yn greadigol ac yn ddychmygus.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;
- Gwrando;
- Cydweithredu a thrafod.

Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
- Trefnu syniadau a gwybodaeth;
- Ysgrifennu'n gywir.

Rhifedd
Defnyddio sgiliau data
- Casglu a chofnodi data;
- Cyflwyno a dadansoddi data;
- Dehongli canlyniadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government